# Y Newyddion Diweddaraf am Gapel Hanesyddol Bethel yn Nolwyddelan

Mae Grŵp Gweithredu Bethel (BAG) yn parhau i fod yn nwylo cyfreithiwr yr Ymddiriedolwr a'u banc i gael mynediad at weithredoedd yr eiddo. Rydym ni wedi derbyn help gwerthfawr gan gyfreithiwr lleol sydd wedi gwirfoddoli i weithredu ar ein rhan, fodd bynnag, nid ydym wedi derbyn ymateb cynhyrchiol gan gyfreithiwr yr Ymddiriedolwr hyd yma.

Yn y cyfamser, hoffai BAG egluro'r dirywiad araf a chostus parhaus yng Nghapel Bethel. Enghraifft amlwg ydy'r ffenestri. Mae'r lluniau canlynol yn dangos tystiolaeth o ddifrod i'r ffenestri ers 2023 o'i gymharu â heddiw. Mae cymaint mwy o ffenestri wedi'u torri neu yn waeth fyth, ar goll yn llwyr. Tydy'r lluniau hyn ond yn dangos y dirywiad mwyaf amlwg. Yn y cefndir mae mwy o ddifrod yn digwydd o ran hindreulio mewnol, y strwythur a'r to. Mae bordiau yn angenrheidiol er mwyn gwarchod y ffenestri sy'n weddill ac amddiffyn y tu mewn. Heb yr awdurdod i gyflawni gwaith o'r fath, mae ein dwylo wedi'u clymu.

**Capel Bethel 2023:**



**Capel Bethel today:**



Er gwaethaf yr oedi, mae BAG yn parhau i ymrwymo a chanolbwyntio ar adfer yr adeilad hanesyddol hwn, er mwyn creu ased cymunedol er defnydd ac er budd cymuned Dolwyddelan.

Os ydych chi'n rhannu ein gweledigaeth, ymunwch gyda ni. Rydym ni'n chwilio am wirfoddolwyr a rhoddion. Efallai yr hoffech chi ymuno â ni yn y cyfarfod grŵp nesaf?

**Ysgrifennydd BAG:** Helena Wroblewska, 07828 761114, Helena_w@btinternet.com

**Cadeirydd BAG:** Richard Griffin, 07736 059925, Richard_griffin@btinternet.com

**Trysorydd BAG Treasurer:** Jon Reynolds, 07722 040778, Jon1reynolds@outlook.com

**Cysylltwch am fwy o wybodaeth:**

Gwefan: bethel-action-group.jimdosite.com

Facebook: Grŵp Bethel